

Mae rhagor o bobl yn defnyddio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd, yn ôl ein harolwg tracio agweddau'r cyhoedd diweddaraf

Mae'r [arolwg tracio agweddau'r cyhoedd](#) yn monitro newidiadau mewn agweddau defnyddwyr tuag at faterion sy'n ymwneud â bwyd. Rydym ni'n cynnal yr arolwg gyda defnyddwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r canlyniadau diweddaraf, o fis Mai 2019, yn dangos bod nifer y bobl sy'n defnyddio'r sticeri hylendid wedi cynyddu i 66% o'i gymharu â 60% yn y cylch blaenorol o fis Tachwedd 2018.

Nododd 85% o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o safonau hylendid mewn mannau lle maent yn prynu bwyd neu'n bwyta allan. Y ffyrdd mwyaf cyffredin o wybod am safonau hylendid oedd trwy sticeri hylendid bwyd (66%) ac ymddangosiad cyffredinol y safle (59%).

Meddai Angela Towers, Pennaeth Tîm Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB:

'Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ble maent yn bwyta allan.

'Rydym ni'n falch o weld defnydd cynyddol parhaus o'r cynllun, sy'n tynnu sylw pellach at yr angen i wneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn fwy hygyrch yn Lloegr trwy ei gwneud hi'n orfodol i arddangos sgoriau hylendid.

'Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac rydym ni'n parhau i ymrwymo i'w gyflwyno yn Lloegr.'

Mae busnesau yn cael sticeri sy'n dangos eu sgôr i'w harddangos yn eu safleoedd. Mae busnesau yn Lloegr yn cael eu hannog i arddangos y sticeri tra bod arddangos yn ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

[Gall defnyddwyr hefyd weld y sgoriau ar-lein ar wefan yr ASB.](#)

Mae meysydd eraill o fewn yr adroddiad yn cynnwys:

Materion bwyd sy'n peri pryder

Y prif faterion diogelwch bwyd a oedd yn peri pryder i'r ymatebwyr oedd:

- Hylendid bwyd wrth fwyta allan (31%)
- Cemegion o'r amgylchedd, fel plwm, mewn bwyd (30%)
- Defnyddio plaladdwyr i dyfu bwyd (29%)
- Gwenwyn bwyd (28%)

Y prif faterion bwyd ehangach a oedd yn peri pryder oedd:

- Gwastraff bwyd (51%)
- Lefel siwgr mewn bwyd (49%)
- Prisiau bwyd (43%)
- Lles anifeiliaid (43%)
- Faint o halen sydd mewn bwyd (39%)

Pryder am ddiogelwch bwyd mewn safleoedd bwyd yn y Deyrnas Unedig (DU)

Roedd 41% o'r ymatebwyr wedi nodi pryder am ddiogelwch bwyd mewn bwytai, tafarndai, caffis a siopau tecawê yn y DU. Roedd 37% wedi nodi pryder am ddiogelwch bwyd mewn siopau ac archfarchnadoedd yn y DU. Mae'r ystadegau hyn yn dangos dirywiad cyffredinol yn y pryder am ddiogelwch bwyd mewn manau gwerthu bwyd yn y DU.

Ymwybyddiaeth o'r ASB

Yng nghylch 18, cafodd cwestiynau yn ymwneud ag ymddiriedaeth a oedd wedi'u cynnwys gynt yn arolwg blaenllaw 'Bwyd a Chi', eu symud i arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd i arsylwi lefelau ymddiriedaeth yn fwy rheolaidd. Datblygwyd mesurau ymddiriedaeth yn yr ASB ac yn y system fwyd yn seiliedig ar ymatebion i nifer o gwestiynau. Sgôr gyfartalog y mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn yr ASB oedd 6.9 allan o 10 a'r sgôr gyfartalog ar gyfer y mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn y system fwyd oedd 3.8 allan o 5.

Roedd canfyddiadau pellach yn dangos bod 78% o ymatebwyr yn ymwybodol o'r ASB, yn debyg i gylchoedd blaenorol. O'r rheiny a oedd yn ymwybodol o'r ASB, roedd 66% yn ymddiried yn yr ASB i wneud ei gwaith, a nododd 72% eu bod yn ymddiried yn yr ASB i ddarparu'r wybodaeth gywir. Roedd ymatebwyr (88%) o'r farn mai sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta oedd y prif fater y mae'r ASB yn gyfrifol amdano.

Agweddau tuag at gynhyrchu, gwerthu a labelu bwyd

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr (76%) wedi nodi eu bod yn hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label a'i fod wedi'i labelu'n gywir, ac roedd 76% yn ymddiried mewn dilysrwydd cynhwysion/ffynhonnell/ansawdd bwyd. Dangosodd canfyddiadau hefyd fod 80% o'r ymatebwyr yn teimlo bod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth am yr hyn sydd mewn bwyd i wneud eu dewisiadau bwyd.

Cefndir

Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer y Cylch hwn ym mis Mai 2019, a chyfwelwyd sampl gynrychiadol o 2,150 o oedolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wyneb yn wyneb.

[Mae'r adroddiad a'r setiau data ar gael ar ein gwefan.](#)